**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

27 Ionawr 2025

Annwyl Sarah

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Gresyn nad oeddech yn gallu bod yn bresennol yn sesiwn graffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well.

Er ein bod wedi gallu gofyn nifer o gwestiynau yn ymwneud â'ch portffolio i Ysgrifennydd y Cabinet, roedd rhai materion heb eu datrys a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb iddynt yn ysgrifenedig:

**Iechyd meddwl**

1. Mae eich papur tystiolaeth yn nodi bod angen i fyrddau iechyd wneud gwell defnydd o adnoddau presennol yn hytrach na cheisio cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl. A allwch egluro pa gamau neu newidiadau penodol yr ydych yn disgwyl i fyrddau iechyd eu rhoi ar waith, a sut y bydd y rhain yn sicrhau y gall gwasanaethau ateb y galw cynyddol, a chynnal ansawdd gofal?
2. Mae'r cyllid iechyd meddwl sydd wedi'i neilltuo yn sicrhau bod byrddau iechyd yn cynnal lefel isafswm buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl. A allwch gadarnhau a oes unrhyw fyrddau iechyd wedi methu â chynnal y lefel isafswm buddsoddiad hwn ac, os felly, beth yw canlyniadau peidio â bodloni'r gofyniad hwn.
3. Yn absenoldeb Strategaeth Iechyd Meddwl ddiwygiedig, a allwch nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar gyfer iechyd meddwl, ac egluro sut y caiff y blaenoriaethau hyn eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft, yn enwedig o ran y meysydd darparu gwasanaethau sy'n cael eu blaenoriaethu, a'r cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn gofal ataliol a chefnogaeth arbenigol i gleifion.
4. Yn ystod ei waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dywedwyd wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nad yw'n bosibl pennu faint mae byrddau iechyd yn ei fuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), er gwaethaf amseroedd aros hir a heriau sydd wedi'u dogfennu o ran darparu ymyriadau amserol. Mae'r

wybodaeth hon yn hanfodol i ddeall pam nad yw'r canlyniadau a ddymunir wedi'u cyflawni, felly a allwch chi roi gwybod i ni sut y gallwch sicrhau bod lefelau buddsoddi yn ddigonol, a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella canlyniadau heb y data hwn.

**Iechyd plant**


5. A allwch gadarnhau p’un a yw Llywodraeth Cymru wedi dad-flaenoriaethu iechyd plant yn y canllawiau ar Fframwaith Cynllunio y GIG /dyraniadau’r Byrddau Iechyd eleni, o ystyried y diffyg cyfarwyddebau penodol i fyrddau iechyd ddiogelu gwasanaethau plant (amlygwyd y rhain fel rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur gan bwysau yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru y llynedd)? A yw hyn yn adlewyrchu rhagdybiaeth bod materion ar gyfer y grŵp hwn wedi cael sylw digonol?
6. A allwch gadarnhau pryd yr ydych yn disgwyl i’r datganiad ansawdd iechyd plant gael ei gyhoeddi. Ac, yn y cyfamser, a allwch roi rhestr fanwl inni o flaenoriaethau a ffrydiau gwaith ar gyfer yr arweinydd clinigol ar iechyd plant yng Ngweithrediaeth y GIG, ac egluro sut y mae'r gyllideb hon yn cefnogi eu cynnydd.

**Cynllun iechyd menywod**

7. A ydych yn credu y bydd y £3 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y Cynllun Iechyd Menywod yn 2025-26 yn ddigon i gyflawni'r camau gweithredu allweddol a amlinellir yn y Cynllun?
8. Gan fod hon yn brif flaenoriaeth i weinidogion, a yw’r dyraniad hwn yn ddigonol o ystyried ei fod yn cynrychioli cyfran gymharol fach o’r gwariant cyffredinol ar iechyd?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael eich ymateb erbyn dydd Gwener, 21 Chwefror.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.